# Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen Canfyddiadau Allweddol ynghylch Effeithiau a Nodwyd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Crynodeb o'r Ymchwil | Ymchwil gymdeithasol | Rhif: 42/2014

Mae'r Cyfnod Sylfaen (a gyflwynwyd yn 2008) yn cynnig cwricwlwm o ddysgu trwy brofiad, sy'n briodol yn ddatblygiadol, i blant 3 i 7 oed yng Nghymru. Nod y gwerthusiad annibynnol (dan arweiniad WISERD), a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, yw gwerthuso pa mor dda y caiff ei roi ar waith, beth fu ei effaith, a ffyrdd o'i wella. Mae'r gwerthusiad tair blynedd yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau cymysg ar raddfa genedlaethol a lleol.

Dyma un o bedwar papur sy'n canolbwyntio ar **effaith**. Mae'n defnyddio 604 o ymatebion gan ysgolion a lleoliadau i arolwg, 1,008 o ymatebion gan rieni/gofalwyr i arolwg, 37 cyfweliad ag Awdurdodau Lleol, pedwar cyfweliad â lleoliadau nas cynhelir, a 357 o gyfweliadau ag ymarferwyr.

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

**Canfyddiadau Allweddol**

- Roedd mwyafrif yr ymarferwyr/rhanddeiliaid allweddol a fu'n rhan o gyfweliadau ac arolygon o'r farn bod y Cyfnod Sylfaen yn cael **effaith gadarnhaol** ar blant a dysgu, yn enwedig mewn ysgolion ac yn arbennig o ran lles, agweddau at ddysgu a hyder.
- Roedd llai o gytundeb ynghylch effaith y Cyfnod Sylfaen ar **lythrennedd**, **rhifedd** a phlant **breintiedig** neu '**fwy abl a dawnus**' (er bod hyn yn gadarnhaol o hyd).
- Dywedwyd yn aml mai **bechgyn**, plant ag **Anghenion Addysgol Arbennig** a phlant â Chymraeg/Saesneg fel **Iaith Ychwanegol** oedd yn elwa fwyaf o'r Cyfnod Sylfaen.
- Er bod y rhan fwyaf o ymatebwyr i'r arolwg o'r farn bod **plant sy'n byw mewn tlodi** yn elwa o'r Cyfnod Sylfaen, roedd rhai o'r penaethiaid yn yr astudiaethau achos yn anghytuno.
- Roedd lefel **boddhad cyffredinol rhieni/gofalwyr** ag addysg eu plant yn uchel, ond ychydig yn is os oedd eu plentyn mewn ysgol a oedd yn rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith i raddau helaethach (ond dim ond ymhlith rhieni plant nad oeddent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a dim ond ym Mlwyddyn 1).

**Canfyddiadau Allweddol Pellach**

At ei gilydd, dywedodd y rhan fwyaf o ymarferwyr/rhanddeiliaid allweddol a fu'n rhan o gyfweliadau ac arolygon fod y Cyfnod Sylfaen yn cael **effaith gadarnhaol** ar blant a dysgu. Yn wir, fe wnaeth cyfran uwch o ymarferwyr a rhanddeiliaid allweddol sôn am newid cadarnhaol (yn hytrach na negyddol) ym mhob maes allweddol. Fodd bynnag, roedd hyn yn **amrywio**, ac yn aml, roedd cyfran sylweddol o ymatebwyr yn dweud na fu unrhyw newid.

Fel grŵp, **penaethiaid** oedd yn aml yn fwyaf amheus, ac yn gyffredinol, roedd athrawon Meithrin a Derbyn yn adrodd effaith fwy cadarnhaol nag athrawon Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2.

Er bod llawer o ymarferwyr a rhanddeiliaid allweddol o'r farn bod y Cyfnod Sylfaen yn meithrin **dysgwyr annibynnol** (e.e. trwy gydweithredu rhwng cymheiriaid a datrys problemau), roedd eraill o'r farn bod plant yn mynd yn orddibynnol ar gymarebau uchel rhwng oedolion a phlant (nifer uchel o ymarferwyr ychwanegol yn y dosbarth).

Roedd mwyafrif yr ymarferwyr/rhanddeiliaid allweddol o'r farn bod y Cyfnod Sylfaen yn cael effaith gadarnhaol ar **lefaredd** plant (ond nodwyd bod llythrennedd, yn enwedig **ysgrifennu**, yn broblem allweddol o hyd yn y Cyfnod Sylfaen).

Roedd llawer o'r farn nad oedd y Cyfnod Sylfaen wedi cael unrhyw effaith ar **ymddygiad** plant, ond roedd mwy o'r farn ei fod wedi gwella yn hytrach na gwaethygu.

Roedd y rhan fwyaf o ymarferwyr a rhanddeiliaid allweddol yn ansicr ynghylch a oedd y Cyfnod Sylfaen yn effeithio ar **bresenoldeb**, ond eto roedd mwy o'r farn ei fod wedi gwella yn hytrach na gwaethygu.

Yn gyffredinol, dywedwyd bod safonau wedi gwella ym maes dysgu '**Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol'**, ond nid oedd cytundeb clir ynghylch effaith y Cyfnod Sylfaen ar feysydd dysgu '**Datblygiad Creadigol',**

**'Datblygiad Corfforol', 'Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd'** a **'Datblygu'r Gymraeg'**.

Roedd ychydig yn fwy o benaethiaid ac arweinwyr y Cyfnod Sylfaen yn yr arolwg o'r farn bod y Cyfnod Sylfaen yn gostwng yn hytrach nag yn cynyddu'r **amrywiaeth gyffredinol mewn cyflawniad addysgol** (h.y. bylchau cyffredinol mewn cyflawniad).

At ei gilydd, roedd 25% o'r athrawon Blwyddyn 3 a gafodd eu cyfweld o'r farn bod y Cyfnod Sylfaen yn cael effaith gadarnhaol ar **baratoi plant ar gyfer Cyfnod Allweddol 2** (roedd 19% o'r farn bod y Cyfnod Sylfaen yn cael effaith negyddol, ac nid oedd y gweddill yn siŵr).

Roedd mwyafrif yr athrawon Blwyddyn 3 a gafodd eu cyfweld yn ansicr ynghylch a fyddai'r Cyfnod Sylfaen yn cael unrhyw effaith ar **ddeiliannau Cyfnod Allweddol 2**.

Roedd lefel **boddhad rhieni/gofalwyr** â'r addysg yr oedd eu plentyn yn ei gael yn y Cyfnod Sylfaen yn uchel yn gyffredinol (yn enwedig os oedd eu plentyn mewn lleoliad nas cynhelir a ariennir neu ddosbarth Meithrin/Derbyn mewn ysgol).

Fodd bynnag, fel yn achos y lefel boddhad cyffredinol, roedd barn rhieni/gofalwyr am y **ddarpariaeth addysgol** a **chynnydd eu plentyn** yn y Cyfnod Sylfaen ychydig yn llai cadarnhaol os oedd eu plentyn yn mynychu ysgol a oedd yn rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith i raddau helaethach (ond dim ond ymhlith rhieni/gofalwyr plant nad oeddent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, a dim ond ym Mlwyddyn 1).

Nid oedd y rhan fwyaf o rieni/gofalwyr o'r farn bod y Cyfnod Sylfaen yn well nac yn waeth na **Chyfnod Allweddol 1**, ond roedd rhieni/gofalwyr plant mewn dosbarthiadau a oedd yn rhoi'r Cyfnod Sylfaen ar waith i raddau helaethach ychydig yn llai tebygol o feddwl bod Cyfnod Allweddol 1 yn well na'r Cyfnod Sylfaen.

Awduron: Samuel Waldron, Mirain Rhys a Chris Taylor (Prifysgol Caerdydd).
ISBN: 978-1-4734-1293-4